

Rhoi datganoli cyllidol ar waith yng Nghymru

Mawrth 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhoi datganoli cyllidol ar waith yng Nghymru

Mawrth 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Simon Thomas AC
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Jane Hutt AC
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberafan

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Dull gweithredu'r Pwyllgor a'r Cefndir	6
2. Trethiant	9
3. Rhagolygon treth annibynnol	14
4. Awdurdod Refeniw Cymru	17
5. Trethi newydd	24
6. Cyfradd treth incwm Cymru	26
Atodiad - Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	29

Argymhellion

Argymhelliad 1. Noda'r Pwyllgor nad yw'r costau trosglwyddo amcangyfrifedig ar gyfer trethi datganoledig o £1.8m wedi eu cadarnhau ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r costau hyn a herio unrhyw gynnydd pellach..... Tudalen 13

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai cynigion manwl ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth a throsglwyddo gwybodaeth gael eu datblygu a'u rhoi ar waith cyn gynted â phosibl..... Tudalen 23

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd fod yn flaenoriaeth allweddol wrth baratoi ar gyfer cyflwyno CTIC ym mis Ebrill 2019..... Tudalen 28

1. Dull gweithredu'r Pwyllgor a'r Cefndir

Dull gweithredu'r pwyllgor

1. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ymchwiliad penodol byr i ystyried y cynnydd a wnaed o ran gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Swyddfa Archwilio Cymru
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
- Awdurdod Refeniw Cymru
- Cyllid a Thollau EM

2. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol roi dystiolaeth i'r Pwyllgor, o ystyried ei ofniad i adrodd yn flynyddol o dan adran 23 ar weithredu Deddf Cymru 2014. Mae'r Pwyllgor yn siomedig bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod y cais i roi dystiolaeth.

Cefndir

3. Gwnaeth **Deddf Cymru 2014** (y Ddeddf) ddatganoli rhai pwerau treth a benthyca i Gymru. Mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddeddfu mewn perthynas â Threth Dir y Dreth Stamp a Threth Tirlenwi. Mae'r Ddeddf hefyd yn deddfu ar gyfer datganoli treth incwm i Gymru yn rhannol, Cyfradd Treth Incwm Cymru.

4. Pasiwyd tair Deddf i Gymru mewn perthynas â Threthi Cymru;

- **Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016;**
- **Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017;**
- **Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.**

5. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed o dan Ran 2 (Cyllid) y Ddeddf. Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Thrydydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014**, tra cyhoeddodd Llywodraeth y DU **Drydydd**

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth y DU ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014.

6. Yn ogystal, ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad, **Datganoli cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratodau ar gyfer gweithredu.**

7. Bydd Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi yn dod yn drethi yng Nghymru o 1 Ebrill 2018, a chânt eu gweinyddu a'u casglu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). O 1 Ebrill 2019, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu cyfradd flynyddol o dreth incwm ar gyfer y rhai y nodwyd eu bod yn "Drethdalwyr Cymreig", a fydd yn parhau i gael ei chasglu gan CThEM a'i dyrannu i Lywodraeth Cymru.

8. Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar yr adolygiad o baratodau Llywodraeth Cymru ar gyfer datganoli cyllidol yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad un argymhelliad allweddol sef, er mwyn cyflawni cerrig milltir allweddol ei hamserlen hollbwysig, fod angen i Lywodraeth Cymru gwblhau ei chynlluniau cyflawni manwl cyn gynted â phosibl.¹

9. Pwysleisiodd Swyddfa Archwilio Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr argymhelliad hwn:

"I'm pleased to see that the Welsh Government have acted very fully, I think, in response to our recommendation, which they accepted at the time. In my work as an observer on the programme board, I've seen those plans come through, and I think the fact that in our latest report we've made actually no recommendations probably itself speaks volumes and is something of a statement of confidence that the programme is in a pretty good place at the moment."²

10. Mewn termau ehangach, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford (Ysgrifennydd y Cabinet), ddatganiad ysgrifenedig ym mis Ionawr 2018 yn amlinellu'r cytundeb rhyngddo ef a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, yn

¹ **Swyddfa Archwilio Cymru, Paratodau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru, Rhagfyr 2016**

² Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 13

cadarnhau bod CThEM, Llywodraeth Cymru ac ACC yn barod i fynd yn fyw gyda'r cam tuag at drethi datganoledig yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018.³

³ **Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig - Yr Ysgrifennydd Cyllid a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn cytuno ar broses drethu newydd i Gymru ar gyfer y trethi datganoledig cyntaf ers 800 mlynedd yn barod i'w rhoi ar waith, 26 Ionawr 2018**

2. Trethiant

Addasiad i'r grant bloc

11. Bydd y refeniw trethi datganoledig yn rhoi ffynhonnell uniongyrchol o gyllid i Lywodraeth Cymru yn annibynnol ar grant bloc Cymru.
12. O ganlyniad, bydd angen **addasiad i'r grant bloc** er mwyn ystyried y refeniw ychwanegol a reolir gan Lywodraeth Cymru. Ym mis Rhagfyr 2016, cytunwyd ar drefniadau cyllido newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o dan fframwaith cyllidol newydd.⁴
13. O ran y fframwaith cyllidol nododd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... over the three-year period 2018-19 to 2020-21, we expect the impact of the fiscal framework, on what we know so far, that that will bring about £70 million to Wales that otherwise would not have come to Wales. So, we can see that 105 per cent multiplier beginning to make a difference there. The way we have chosen to use our tax responsibilities I think adds another £30 million into that over a three-year period. So, there's £100 million now available in revenue for Welsh public services.”⁵

Polisi trethi

14. Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y Fframwaith Polisi Trethi⁶ a chynllun gwaith polisi trethi 2017⁷. Mae'r Fframwaith yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio ei phwerau treth, gan gynnwys pum egwyddor treth:

- Codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
- Cyflawni amcanion polisi presennol Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi twf a swyddi;
- Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml;
- Cael eu datblygu drwy gydweithredu ac ymwneud;

⁴ **Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2016**

⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 242

⁶ **Llywodraeth Cymru, Fframwaith Polisi Trethi, Mehefin 2017**

⁷ **Cynllun gwaith polisi trethi Llywodraeth Cymru 2017, Mehefin 2017**

- Cyfrannu at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.⁸

15. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn hyderus bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodir o fewn yr amserlenni sefydledig, a dywedodd:

“Rydym yn bwrw ymlaen gyda'r cynllun. Mae rhai pethau yn y cynllun sydd lawr yna i'w gwneud yn y tymor byr-rates and bands, awgrymiadau am drethi newydd, ac yn y blaen - ac mae rhai pethau eraill yn y cynllun sydd lawr yna ar dymor ehangach na hynny.”⁹

Treth Trafodiadau Tir

16. Cyhoeddwyd y cyfraddau treth cychwynnol a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19. Fodd bynnag, yn dilyn cyllideb hydref Llywodraeth y DU, a oedd yn cynnwys newidiadau i Dreth Dir y Dreth Stamp ar gyfer prynwyr tro cyntaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfraddau a bandiau preswyl newydd. Trafodwyd y rheoliadau mewn perthynas â'r cyfraddau a'r bandiau yn y Cynulliad a phleidleisiwyd arnynt ym mis Ionawr 2018.¹⁰

Treth Gwarediadau Tirlenwi

17. Cyhoeddwyd y cyfraddau treth arfaethedig yng nghyllideb ddrafft 2017-19 Llywodraeth Cymru, a chawsant eu trafod yn y Cynulliad a phleidleisiwyd arnynt ym mis Ionawr 2018.¹¹

Ymgysylltu â'r cyhoedd

18. O ran ymwybyddiaeth o'r ddwy dreth ddatganoledig - Y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - a gyflwynir ar 1 Ebrill 2018, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn teimlo ei bod yn bwysicach i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu'r gwaith o ymgysylltu â thrawsgludwyr sy'n delio â'r Dreth Trafodiadau Tir a gweithredwyr safleoedd tirlenwi ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, yn hytrach na'r cyhoedd:

“In terms of the general public, I think, for these two initial taxes, the level of personal public engagement with paying the taxes is relatively

⁸ **Llywodraeth Cymru, Fframwaith Polisi Trethi, Mehefin 2017, Tudalen 1**

⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 140

¹⁰ **Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, Eitem 9, 30 Ionawr 2018**

¹¹ **Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, Eitem 9, 30 Ionawr 2018**

limited, because it's at third hand; it's your solicitor conveyancing who handles the stamp duty payments for you."¹²

19. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod gwaith Llywodraeth Cymru o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y ddwy dreth yn amserol:

"... with the two taxes coming on stream immediately, they [Welsh Government] engaged very promptly with the various landfill operators and with the players in that particular industry. With stamp duty and the property tax, they were engaging then with the profession, with solicitors, the Law Society, estate agents and things."¹³

20. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio gyda thrawsgludwyr ar ddwy ochr y ffin er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o'r Dreth Trafodiadau Tir yn benodol a'i rôl wrth gasglu a rheoli'r dreth hon:

"We've done lots of work with solicitors on both sides of the border. So, for example, we were doing something in Manchester. I'm not sure that it was this week, but it's happened, or about to happen. ... Interestingly, we've spent quite a lot of time in London because, actually, quite a lot of the big solicitors supporting people about making the transactions are based in London. So, my team have been out, speaking to forums there."¹⁴

21. Mae CThEM yn gweithio hefyd gyda'r Gofrestrfa Tir i nodi eiddo trawsffiniol:

"We're also doing specific guidance on cross-border properties where there are some properties that actually span the border, where we're working with the Land Registry about, first of all, the rules for taxing those and also for making sure that the Land Registry is able to identify them and make sure that's picked up at the time of the transaction."

22. Mae CThEM hefyd wedi ymgysylltu â thrawsgludwyr ac mae cynlluniau ar waith i gyfathrebu ar y cyd ag ACC:

"...From February, next month, [we will] do joint communications with the Welsh Revenue Authority to people who will need to understand the new rules and who they will need to direct their transactions to. We've already been engaging with bodies like conveyancers and

¹² Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 51

¹³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 50

¹⁴ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 140

solicitors... Formal communications will happen over the next couple of months, starting in February.”¹⁵

Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi – Costau trosglwyddo ac arbedion

23. Mae’r costau amcangyfrifedig ar gyfer trosglwyddo i’r Dreth Trafodiadau Tir a’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cynyddu’n sylweddol o £1m i £1.8m ers yr amcangyfrifon gwreiddiol. Nododd CThEM fod y costau hyn o ganlyniad i:

- Newid ei systemau TG er mwyn sicrhau nad yw’n casglu ffurflenni treth na thaliadau mewn perthynas â thrafodion tir yng Nghymru.
- Sicrhau y gall CThEM drosglwyddo data rhyngddo ef ei hun a’r ACC yn ddiogel.¹⁶

24. Dywedodd CThEM fod yr amcangyfrifon gwreiddiol yn seiliedig ar yr hyn a wnaed wrth ddatganoli trethi yn yr Alban. Fodd bynnag, mae systemau TG wedi newid ers hynny er mwyn ychwanegu cydnerthedd at systemau CThEM, yn enwedig mewn perthynas â diogelu data rhag ymosodiadau seiber.¹⁷

25. Honnodd Llywodraeth Cymru fod a wnelo’r rhan fwyaf o’r costau â’r ffaith bod CThEM yn cael mynediad at ddata trafodion yng Nghymru:

“... most of the costs are to do with them getting access to our data and ensuring that that data flows through HMRC systems in the way that it needs to. So, you kind of think, ‘all you’re doing is disapplying it in Wales, that can’t cost very much’, but it’s all the continuing interest that HMRC have in transactions in Wales that is really where the costs arise.”¹⁸

26. Cadarnhaodd CThEM ei fod yn hyderus y bydd y systemau hyn ar waith:

“We are confident that we will have systems in place that will prevent Welsh transactions being wrongly reported to us and vice versa. We have facilities in place to exchange data between the two authorities to

¹⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, Paragraff 118

¹⁶ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, Paragraff 104

¹⁷ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, Paragraff 104

¹⁸ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 210

make sure that we can properly maintain compliance and have the right statistical information.”¹⁹

27. Bydd arbedion cost blynyddol rhwng £115,000 a £160,000 y flwyddyn o ganlyniad i ddileu Treth Dir y Dreth Stamp y DU a Threth Tirlenwi yng Nghymru.²⁰

Barn y Pwyllgor

28. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwybod sut mae'r fframwaith cyllidol yn effeithio ar wariant cyhoeddus yng Nghymru ac yn credu bod yr addasiad i'r grant bloc yn agwedd bwysig ar ddatganoli cyllidol yng Nghymru.

29. Noda'r Pwyllgor y dystiolaeth mewn perthynas â pharatoi ar gyfer datganoli Trethi Cymru ac yn gyffredinol mae'n hyderus bod y paratoadau yn mynd rhagddynt yn dda.

30. Mae'r cynnydd yng nghostau CThEM o £0.08m yn peri pryder i'r Pwyllgor ond noda'r rhesymau dros y cynnydd hwn gan gydnabod y bydd arbedion cost blynyddol yn y dyfodol.

Argymhelliad 1. Noda'r Pwyllgor nad yw'r costau trosglwyddo amcangyfrifedig ar gyfer trethi datganoledig o £1.8m wedi eu cadarnhau ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r costau hyn a herio unrhyw gynnydd pellach.

¹⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, Paragraff 96

²⁰ **Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Strategaeth Cwsmeriaid a Dylunio Trethi, CThEM at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 6 Rhagfyr 2017**

3. Rhagolygon treth annibynnol

31. Rhoddwyd contract blwyddyn i Brifysgol Bangor graffu'n annibynnol ar y modelau rhagolygon treth a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor waith Prifysgol Bangor wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19.

32. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet, Mark Drakeford, yn ei **lythyr i'r Pwyllgor Cyllid** ar 21 Medi 2017 y byddai'n well ganddo pe bai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau rhag-weld annibynnol ar gyfer Cymru yn y tymor hwy.

33. Yn ystod sesiwn y Pwyllgor Cyllid gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Rhagfyr 2017, pan ofynnwyd a allai'r Swyddfa lunio rhagolygon annibynnol, dywedodd y Swyddfa:

“There are particular challenges for us around the coincidence of the timing of your draft budget timetable plus a whole set of other documents we have to produce in the UK, because it coincides with the full set of national accounts, the first set of decent UK-wide public expenditure numbers we get in. So, I think the chances of us being in a position, even with more resource, to be able to present you with a fully bells-and-whistles publication ahead of a draft budget timetable is quite difficult, but I think what would be possible would be to provide scrutiny support, and then obviously to return to that more comprehensively when we do our November forecast and you get the equivalent of the devolved taxes publication, which could probably be expanded somewhat.”²¹

34. Ceisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy ddweud:

“If we were to conclude that what the OBR is able to do in that practical sense doesn't match what we need, then we've always had other possibilities for this. The good news here is that the Bangor work that we had this year has turned out to be, I think, of good calibre and the Treasury are less anxious about us continuing to use that route for the time being while we set up something else. So, I hope the OBR will still be the route we can go down.”²²

²¹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 13 Rhagfyr 2017, Paragraff 38

²² Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 239

Data penodol i Gymru

Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi

35. O ran argaeledd data penodol i Gymru i rag-weld refeniw treth datganoledig, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn credu, gyda'r ACC yn gweinyddu trethi datganoledig yn 2018-19, y bydd yr ACC yn llunio gwybodaeth sy'n benodol i Gymru nas cafwyd erioed o'r blaen. Pwysleisiodd y bydd yr ACC yn ffynhonnell bwysig iawn o'r wybodaeth honno.²³

36. Rhoddodd yr ACC sylwadau ar y data y bydd yn eu casglu:

“...we're collecting the characteristics of the individual and the characteristics of the transactions involved, and we will be creating from that the best analysis we possibly can that protects, of course, the confidentiality of taxpayers.”²⁴

37. Nododd ACC ymhellach:

“We will also be able to report on data by local authority area. So, we will be able to do that as well. And, obviously, because we will be collecting data from Wales, we will have a better handle on what's the nature of the tax base in Wales, and the behaviour of individuals, et cetera. So, we will hold those data in a way that perhaps HMRC are not quite able to disaggregate for understandable reasons, yes.”²⁵

Cyfradd treth incwm Cymru

38. Bydd CThEM yn gyfrifol am gasglu refeniw CTIC, a gaiff ei drosglwyddo wedyn i Lywodraeth Cymru. Pan ofynnwyd pa wybodaeth y gallai ei rhannu at ddibenion rhag-weld, dywedodd CThEM:

“There are two types of data that we're going to be able to share with [Welsh Government]. One is something we call the survey of personal incomes, which is a large sample of all income tax payers, where we will have a Welsh extract from that. It is anonymised, so in the sense that it is put into a state where you couldn't easily identify an individual taxpayer, and so that means that we will group together some income levels so that you haven't got very small numbers in any bracket, but it

²³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 240

²⁴ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 159

²⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 161

still is equivalent to the information that the Treasury have to get their forecasting.”²⁶

Barn y Pwyllgor

39. Cydnabu'r Pwyllgor fod ansicrwydd yn y rhagolygon, yn enwedig o ran y Dreth Trafodiadau Tir. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor fod rhagolygon treth cadarn yn rhan hanfodol o broses gyllidebol Llywodraeth Cymru ac y bydd rhagolygon effeithiol yn hanfodol ar gyfer craffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol.

40. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wnaed gan Brifysgol Bangor i ystyried y modelau a'r rhagolygon a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

41. Mae'r Pwyllgor yn cwestiynu cynnig Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer rhagolygon yn y dyfodol ac, er ei fod yn gwerthfawrogi manteision y dull gweithredu hwn, nid yw barn y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ynghylch ei gallu i gyflawni rhagolygon cynhwysfawr ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn lleddfu ei bryderon.

Casgliad 1. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ar ei chynlluniau ar gyfer rhagolygon treth annibynnol.

²⁶ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, Paragraff 178

4. Awdurdod Refeniw Cymru

42. Gofynnodd y Pwyllgor i'r ACC am ddiweddariad ar ei baratodau ar gyfer gweinyddu'r trethi datganoledig ym mis Ebrill 2018. Dywedodd y Prif Weithredwr:

“Felly, rydym ni wedi bod yn gwneud llwyth o waith i wneud yn siŵr bod y bobl sy'n gorfod defnyddio ein gwasanaethau yn ddigon parod i wneud hynny, ac rydw i bendant yn glir bod y gwaith yna wedi cael ei gyflawni.”²⁷

43. Ymhelaethodd hefyd ar yr hyn a oedd eto i'w wneud:

“Rhwng rŵan ac 1 Ebrill, mae yna ddau *phase* i'r gwaith. Hynny ydy, i gychwyn, *registration*: a ydy pobl yn gwybod beth maen nhw'n gorfod ei wneud er mwyn gwneud y *registration process*? Ac mae hynny'n dibynnu os ydyn nhw'n gwneud *registration* ar gyfer treth trafodiadau tir neu ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi... Wedyn, rydym ni wrthi, rŵan, yn gorffen y *guidance* rydym yn gorfod ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth i'w wneud efo'r ddwy dreth.”²⁸

Canllawiau

44. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn hynt y canllawiau. Nododd ACC:

“The majority has already gone out, that's the point. LTT guidance—the full extent of it—has been shared with stakeholders. By that, I mean the Law Society, CIOT and stakeholder groups of people who are the big users of that guidance. We have had feedback from them and we're just responding to that feedback. So, actually, it's not a case of when—it's already out there; it's already been shared. It's just that it's not on the website yet and all published. But the people who will actually in practice be using it—. And the same applies to LDT. So, it's a reasonably small number of people, and we have very close contact with them. They've already seen lots of it already.”²⁹

²⁷ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 8

²⁸ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraffau 9-10

²⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 48

Gwasanaethau Digidol

45. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod “yr amserlen ar gyfer cyflwyno erbyn 1 Ebrill 2018 yn hynod gywasgedig heb lawer o le i lithro; a bod yna risg fawr o hyd na fydd y System Ddigidol ar gyfer Casglu a Rheoli Trethi wedi cael ei chyflwyno’n llwyddiannus erbyn y dyddiad hwnnw”.³⁰

46. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru:

“What I think we can say is that it’s clear to us that they [WRA] have robust plans in place to get them to that finish line, or, indeed, to activate contingency should it be necessary. So, they are in about as good a place as we could reasonably expect, given where they were a year ago.”³¹

47. Eglurodd Llywodraeth Cymru fod y risg yn ymwneud â’r systemau cefn swyddfa ac na fyddai’r defnyddiwr yn sylwi ar unrhyw broblemau wrth gyflwyno ffurflen dreth:

“The risk really lies behind the back-office systems that the Welsh Government will have, because we’ve implemented a finance system in a very short period of time, and the integration between those two systems. So, the customer will see a form to complete, and they will complete it. It’s the amount of work we need to do behind. We’ve taken the risk to try and integrate those systems, because the benefit of that is of huge benefit to the WRA going forward.”³²

48. Holodd y pwyllgor am gynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd problemau gyda’r system ar ôl ei lansio. Darparodd ACC enghraifft o sut y bydd yn integreiddio cynlluniau wrth gefn yn ei gynllun gwaith:

“Felly, beth rydym ni’n ei wneud yw bod gennym ni 15 o *milestones*, *contingency plans* ar eu cyfer nhw i gyd, ac wedyn mae gennym ni 25 o *scenarios*, felly mae yna *contingency plan* iddyn nhw a phob un ohonyn nhw’n dangos i chi bod rhywun yn benodol yn gorfod edrych ar ei ôl o. Mae gennym ni ryw beth sy’n dangos beth fyddai’n digwydd pe bai yna, er enghraifft, *outage* yn un o’n systemau ni am hanner awr, am ddiwrnod, am wythnos, am fis. Felly, mae pob dim y buasech chi’n

³⁰ **Swyddfa Archwilio Cymru, Datganoli Cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratodau ar gyfer gweithredu, 21 Rhagfyr 2017, Paragraff 2.29**

³¹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 79

³² Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 170

medru ei wneud ar gyfer hynny wedi cael ei wneud. Nid yw hynny'n golygu bod—. Mae'n bosib y bydd rhywbeth yn mynd wyneb i waered, ond, ar hyn o bryd, mae pob dim wedi cael ei wneud.”³³

49. Soniodd Ysgrifennydd y Cabinet ymhellach am gynlluniau wrth gefn:

“...the WRA, working with HMRC, have been putting into place a series of fallback measures so that if things don't work out in the way that we hope—so, for example, if the digital tax system were to fail on 1 April—then there is, ready and capable of being immediately deployed, an online form that taxpayers and agents could use to complete their tax return in LTT.”³⁴

Recriwtio

50. Yn ei hadroddiad, nododd Swyddfa Archwilio Cymru y nifer fawr o secondiadau i ACC.

51. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru y gallai hyn arwain at golli sgiliau allweddol pan fyddai staff yn dychwelyd i'w swyddi gwreiddiol.³⁵

52. Datgelodd Ysgrifennydd y Cabinet fod recriwtio staff drwy secondiadau yn “deliberate part of the strategy”.³⁶ Nododd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

“...it's much easier to attract a wide field if people have the ability to hedge their bets and go on secondment or loan rather than commit permanently to a new organisation where they don't really know much about how it's going to develop. So, to widen the field, you definitely want to be able to offer jobs on secondment and loan, but that doesn't mean those people will necessarily be going back to the previous place after two or three years.”³⁷

53. Pan ofynnwyd am recriwtio, dywedodd Prif Weithredwr ACC:

“We are, relatively, a very small organisation, and therefore, we have to have an approach to how we retain the skills and knowledge that we need... It's about making sure that we can retain a flow of people who

³³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 19

³⁴ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 169

³⁵ **Swyddfa Archwilio Cymru, Datganoli Cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratodau ar gyfer gweithredu, 21 Rhagfyr 2017, Paragraff 2.15**

³⁶ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 181

³⁷ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 183

come in and out of the organisation. It's above all else about ensuring that we are an attractive place to work, and that we're able to attract people."³⁸

54. Mae Bwrdd ACC yn ymwybodol o'r broblem cadw staff a bydd yn creu pwyllgor i fonitro hyn:

"The board is particularly cognisant of the importance of this issue and has already had some discussions with the human resources lead about these matters. One of the two permanent committees that the board will establish-we haven't established it yet-is likely to be what used to be called a remuneration committee, but more properly would probably be called an organisation and staffing committee, so that there is board-level focus on these very important aspects."

55. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei thystiolaeth y bydd cynllunio ar gyfer olyniaeth a throsglwyddo gwybodaeth yn allweddol i gadw sgiliau o fewn ACC. Nododd Swyddfa Archwilio fod ACC yn datblygu cynlluniau dysgu a datblygu i rannu gwybodaeth:

"...recognising the extensive use of secondees and getting robust succession planning in place, whether that is through internal promotion or further recruitment or indeed extension of secondments. But then it's the knowledge transfer, as people leave, that they're not simply walking out of the door with the knowledge in their heads. So, they have recognised the need for that to happen. They are, I think, putting in place plans to ensure that that happens, but clearly we've flagged in our report that there is more they need to do in managing that risk. You're absolutely right; with so many secondees, particularly in senior posts, succession planning and knowledge transfer will be key."³⁹

Trefniadau gweithio

56. Gwnaed sylwadau cyffredinol ar y partneriaethau cryf rhwng ACC a'i bartneriaid megis CThEM, Revenue Scotland, y Gofrestrfa Tir ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Er enghraifft, mae ACC yn defnyddio profiadau Revenue Scotland o ran cyflwyno trethi datganoledig:

"Even though we're working on the information agreement with Revenue Scotland, we have regular monthly discussions with them

³⁸ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 101

³⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 93

around—you know, they're actually operating now; what does that actually mean?"⁴⁰

57. Gwnaeth Llywodraeth Cymru roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar y trefniadau gweithio:

"HMRC will have put the necessary legislation in place to share data with the WRA from 1 April. We are developing memorandums of understanding (MoU) and information-sharing agreements with those other bodies (VOA & Land Registry). We'll have a near-final draft of the MOU with HMRC in place, and we hope to be able to share that formally with HMRC by the end of this month."⁴¹

58. Roedd Prif Weithredwr ACC yn hyderus y bydd y Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a'r cytundebau rhannu gwybodaeth ar waith erbyn mis Ebrill 2018:

"I was only talking yesterday to Revenue Scotland's chief executive, making sure that we've got what we need to have in place—we will do—to be able to make that work as well, because there will be need for us to share data with them. So, the MOUs and the information sharing agreements that need to be in place before April will all be in place by April."⁴²

59. Bydd ACC yn gweithio hefyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar gydymffurfiaeth o ran y Dreth Gwarediadau Tirlenwi â Phrif Weithredwr ACC a nododd:

"Actually, I signed a memorandum of understanding just before Christmas with Kevin Ingram, who's the interim chief executive of NRW. So, we have that in place and we're now just working on the finer details of the information-sharing agreement, making sure that that's in place appropriately."⁴³

Costau

60. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor Cyllid ym mis Rhagfyr 2017 yn diwygio costau ACC.⁴⁴ Nododd y byddai'r costau gweithredu ar frig yr

⁴⁰ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 196

⁴¹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 193

⁴² Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 152

⁴³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 155

⁴⁴ **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Cyllid, 4 Rhagfyr 2017**

ystod amcangyfrifedig sef £6.3m ond roedd costau gweithredu wedi eu tanamcangyfrif £0.5m yn 2017/18 a £1.7m yn 2018/19 a 2019/20.

61. Cafwyd consensws yn ystod y sesiynau fod y cynnydd mewn costau gweithredu o ganlyniad i weithredu cyfraddau uwch ar gyfer eiddo ychwanegol fel rhan o'r Dreth Trafodiadau Tir. Soniodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai rheoli'r cyfraddau uwch yn waith gweinyddol dwys oherwydd "one of the complexities of the tax and one of the reasons it costs money to administer is that you hand back quite a lot of this tax to people too".⁴⁵

62. Cytunodd ACC:

"... it's not about the implementation cost; it's about the running cost of the additional rate, mostly. So, for example, 58,000 transactions is the estimate, I think, for next year of how many transactions we would have, but of those, 7,000 of them, additionally, it's estimated, would be taxable, because of the additional rate that wouldn't have been there had you not have had an additional rate. So, that provides us with more work, basically—more things to do. Plus, that work is a lot more complicated. Because it's not just about the transactions, but about the circumstances of the individual, and therefore we will require more investigation following that, quite possibly."⁴⁶

63. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru nad yr amcangyfrifon gwreiddiol oedd yn anghywir, ond yn hytrach mai rôl ACC sydd wedi esblygu:

"I think that in essence what's happened here is that the original estimates for building a thing called 'the WRA' were made at the outset. The thing that is being created now looks rather different to that original thing and, accordingly, the estimations for costs for that WRA have evolved. It's not, I think, that the original estimates were inaccurate; it's that what is being built is different: it is bigger, it is more complicated and it has greater functionality. That is inevitably more expensive."⁴⁷

Barn y Pwyllgor

64. Mae'r Pwyllgor wedi dangos diddordeb brwd yn y gwaith o sefydlu ACC ac mae'n fodlon ar y cynnydd a wnaed.

⁴⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 198

⁴⁶ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 17 Ionawr 2018, Paragraff 66

⁴⁷ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 133

65. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld camau'n cael eu cymryd i sicrhau y cedwir sgiliau sy'n benodol i drethi yng Nghymru. Er y gwerthfawrogir manteision recriwtio nifer o staff ar secondiad, mae risgiau'n gysylltiedig â dibynnu'n drwm ar staff ar fenthyg. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd fod hyn yn cael ei ystyried gan ACC a byddai'n croesawu diweddariad ar hyn maes o law.

66. Cydnabu'r Pwyllgor fod gwasanaethau digidol yn cael eu datblygu ac y byddant yn barod cyn 1 Ebrill 2018. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ymweliad â swyddfeydd ACC yn dilyn datganoli trethi Cymru er mwyn asesu perfformiad y gwasanaethau hyn.

67. Croesawodd y Pwyllgor y broses o sefydlu partneriaethau cryf gan ACC er mwyn sicrhau cydberthnasau gwaith effeithiol yn y dyfodol, yn enwedig wrth sicrhau bod eiddo ar hyd y ffin yn cael eu nodi.

68. Mae'r Pwyllgor yn dawel ei feddwl bod cynllunio ar gyfer olyniaeth a throsglwyddo gwybodaeth yn flaenoriaethau allweddol i ACC a byddai'n croesawu diweddariad ar hyn maes o law.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai cynigion manwl ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth a throsglwyddo gwybodaeth gael eu datblygu a'u rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

5. Trethi newydd

69. Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fwriad i brofi'r system o ddatblygu treth newydd i Gymru:

“I think it's important just to say again that what we are doing in the very first potential tax that we will select is to test the new machinery. So, that's also in my mind as to whether this is the sort of tax that is suitable for that machinery-testing purpose.”⁴⁸

70. Amlinellodd ei amserlenni ar gyfer cynnig treth newydd:

“My ambition is to be able to come to the Assembly before half term and to say, ‘This is the one that I've now decided on, for now. That doesn't mean to say that other things on the list are just forgotten, but we've got to test the system for the first time. This is one of the four that I think will be most suitable for doing that.’”⁴⁹

71. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau paratoi ar gyfer profi'r system newydd:

“We've had a series of discussions with the UK Government about the part that they will then play... I hope, to an agreed protocol with the UK Government that will set out how they will respond. I will send the tax up the line, the first action then lies with them, and I hope that we will have an agreed document with them that will set out how they will then go about responding.”⁵⁰

72. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet pa mor hir roedd yn disgwyl i'r broses ei gymryd:

“But it shouldn't take more than 12 months for them to complete everything that we would expect them to complete. After we've done it the first time and we've all learned from that, I would hope that, after that, the process would be considerably shorter.”⁵¹

73. Yn dilyn gwaith y Pwyllgor o graffu ar gyllideb ddrafft 2018-19,⁵² cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Bwyllgor Busnes y Cynulliad gyda'r bwriad o gael ei

⁴⁸ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 227

⁴⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 228

⁵⁰ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 229

⁵¹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 231

⁵² **Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-2019, Rhagfyr 2017**

gynnwys yn y broses o gytuno ar drethi newydd, ac ers hynny mae wedi cael gohebiaeth yn gwahodd y Pwyllgor i roi sylwadau ar y broses arfaethedig.

Barn y Pwyllgor

74. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymgynghoriad gan y Pwyllgor Busnes ac yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y rhoddir darpar drethi newydd ar waith yn llwyddiannus yng Nghymru.

6. Cyfradd treth incwm Cymru

Materion trawsffiniol

75. Mewn ymateb i'r sefyllfa bosibl lle byddai unigolyn yn byw yng Nghymru ond yn gweithio ar draws y ffin, tynnodd Swyddfa Archwilio Cymru a CThEM sylw at y ffaith mai man preswyllo rhywun ac nid ble mae'n gweithio fydd yn penderfynu a yw'n drethdalwr Cymreig. Dywedodd CThEM:

“it doesn't matter where you work. We're not interested in where you work; it is where you live. So, for most people, they will only have one main place of residence, and that should be the address that we have, so that will determine their status.”

76. O ran adnabod trethdalwyr Cymreig at ddibenion treth incwm, eglurodd Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru mai cyfrifoldeb CThEM oedd hyn a dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“They [cross-border issues] are the things that we should be concerned about, and we will work with HMRC on those things. But these are things for which they are responsible.”

77. Gofynnodd y Pwyllgor i CThEM pa brosesau oedd ar waith i adnabod trethdalwyr Cymreig gyda phwyslais arbennig ar y rhai sy'n byw yn agos at y ffin. Eglurodd CThEM:

“...there is no definitive database of Welsh residents against which we can benchmark our own database of taxpayers. But, we can look at credit reference agencies, and there are a variety, and electoral rolls [and council tax].”

78. Cyfeiriodd CThEM ymhellach at ffynonellau eraill y gellir eu defnyddio:

“...we get address information from employers, from the Department for Work and Pensions, so we've got other sources of address information.”

79. Pan ofynnwyd sut y byddai CThEM yn adnabod pobl sy'n symud eiddo ar draws y ffin, dywedodd CThEM:

“The key thing that we need people to do is to keep us up-to-date when they move and tell us when they have moved, and that is really all that the vast majority of people will need to do in order for us to keep the database up-to-date.”

Ymgysylltu

80. Yn ei thystiolaeth, nododd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai ymgysylltu â'r cyhoedd yn hanfodol yn y cyfnod cyn cyflwyno CTIC ym mis Ebrill 2019:

“The Welsh rate of income tax is where it’s really going to hit home that there is something that is new and different and people will need to respond differently to it. So, that’s where the public engagement is really going to need to ramp up over this next 12 to 15 months.”

81. Pwysleisiodd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'n beryglus i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhy fuan:

“There is almost a danger of starting too soon with that process in that you can put an announcement out and that loses currency quite quickly. So, actually, timing that phased communication and building up of awareness, understanding, realisation of what it means for them has got to be accompanied by clear guidance, a user-friendly website. The Welsh Government have plans in place for those things... They’ve got some quite sophisticated communications expertise, I think, within the programme, which they’re drawing on with their plans.”⁵³

82. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd sut y byddai CThEM yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Dywedodd:

“...we are talking to the Welsh Government about the possibility of issuing notification letters to all Welsh taxpayers in advance of that.. That will give people an opportunity to be aware of what’s coming... Otherwise, the formal thing they will receive is the coding notice, starting from December 2018.”⁵⁴

Costau trosglwyddo

83. Cadarnhaodd CThEM y byddai costau trosglwyddo ar gyfer CTIC rhwng £5m a £10m. Mae hyn gryn dipyn yn llai na'r swm amcangyfrifedig cyfredol ar gyfer yr Alban, sef £20-25 miliwn. Y **rheswm am y gwahaniaeth hwn** yw am fod CThEM yn gallu manteisio ar newidiadau i'r system sydd eisoes wedi'u gwneud er mwyn cynnwys Cyfraddau Treth Incwm yr Alban:

⁵³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2018, Paragraff 51

⁵⁴ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, Paragraff 100

“I think in this instance, whilst, as I say, there are particular challenges in relation to the Welsh rates of income tax, it’s not identical. Nevertheless, a lot of what we did when devolving income tax to Scotland we can reuse for your purpose and that’s why our cost estimate is already much, much lower than the cost estimate for the Scottish devolution.”⁵⁵

Barn y Pwyllgor

84. Cred y Pwyllgor fod ymgysylltu â’r cyhoedd yn y cyfnod cyn CTIC yn hanfodol a bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o CTIC yn flaenoriaeth allweddol gan y byddai newidiadau i dreth incwm yn cael effaith uniongyrchol ar drethdalwyr Cymreig.

85. Mae’r Pwyllgor yn croesawu dull CThEM o ddefnyddio ffynonellau gwahanol i adnabod trethdalwyr Cymreig, yn enwedig y rhai sy’n byw yn agos at y ffin.

Argymhelliad 3. Mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylai ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd fod yn flaenoriaeth allweddol wrth baratoi ar gyfer cyflwyno CTIC ym mis Ebrill 2019.

⁵⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 31 Ionawr 2018, Paragraff 113

Atodiad – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Mae trawsgriadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar** ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
11 Ionawr 2018	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Cyllid Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru Claire McDonald, Rheolwr Cynllun Gweithredu, Awdurdod Cyllid Cymru
11 Ionawr 2018	Richard Harries, Cyfarwyddwr, Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru Mike Usher, Cyfarwyddwr ac Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog, Swyddfa Archwilio Cymru Matthew Coe, Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru
17 Ionawr 2018	Kathryn Bishop, Cadeirydd, Awdurdod Cyllid Cymru Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru
31 Ionawr 2018	Jim Harra, Ail Ysgrifennydd Parhaol, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi Sarah Walker, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datganoli, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi